# Symud o wasanaethau gofal iechyd plant i wasanaethau gofal iechyd oedolion

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nid digwyddiad yn unig ydy dod yn oedolyn - mae'n broses sy'n llawnpenderfyniadau a llawer o newidiadau.

**Os ydych chi'n cael cymorth gan y gwasanaethau gofal iechyd plant, mae symud i wasanaethau oedolion yn rhan o'r broses hon.**

Yn 16 mlwydd oed gallwch gydsynio i'ch gofal iechyd.

**16 oed** → **18 oed**

Yn 18 mlwydd oed rydych chi'n dod yn oedolyn yn gyfreithiol.

**Gwasanaethau gofal iechyd plant**

**Rhwng 16 a 18, mae pobl ifanc yn symud (trosglwyddo) i wasanaethau oedolion.**

**Gwasanaethau gofal iechyd oedolion**

**Mae cynllunio'n dechrau** pan fyddwch chi tua 13 mlwydd oed.



## Dydych chi ddim ar eich pen eich hun – byddwch yn cael cymorth gan weithiwr a enwir

Rydych chi'n **cael** dewis pwy yw eich gweithiwr a enwir – nyrs, eich meddyg neu weithiwr iechyd proffesiynol neu rywun arall rydych chi'n ei adnabod ac yn ymddiried ynddo.

Byddant yn eich cefnogi a'ch helpu i drefnu eich cynlluniau gofal iechyd a sicrhau eich bod yn cael dweud eich dweud mewn penderfyniadau.

Byddant hefyd yn sicrhau bod pawb yn cymryd rhan gan gynnwys eich teulu, eich tîm gofal iechyd a gwasanaethau eraill fel gwasanaethau cymdeithasol ac addysg.

## Byddant yn eich helpu i ddatblygu eich **Cynllun Pontio a Throsglwyddo**

Bydd eich cynllun yn **cynnwys** llawer o wybodaeth am eich anghenion gofal iechyd, eich triniaeth a phwy sy'n gyfrifol am beth. Bydd hefyd yn cynnwys **amserlen** o'r hyn sy'n digwydd a beth sy'n bwysig i chi.

**Mae'r cynllun yn gweithio fel pasbort fel nad oes rhaid i chi ail-adrodd pethau o hyd.**

**I ddysgu mwy ewch i:**
[llyw.cymru/pontio-throsglwyddo-o-wasanaethau-iechyd-plant-i-wasanaethau-iechyd-oedolion](llyw.cymru/pontio-throsglwyddo-o-wasanaethau-iechyd-plant-i-wasanaethau-iechyd-oedolion)

